------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6363

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 3, 4 ac 8 y cyfarfod heddiw a'r cyfarfod ar 28 Tachwedd 2018

(09.00)

## 3 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: trafod yr adroddiad drafft

(09.00-09.15)

## 4 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i daliadau am nwyddau cyhoeddus

(09.15-09.30) (Tudalennau 1 - 8)

Dogfennau atodol:

Papur Preifat

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 9 - 38)

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd

Prys Davies, Pennaeth Datgarboneiddio ac Ynni

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur - Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## Egwyl (11.00-11.15)

## 6 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018: sesiwn dystiolaeth gyda Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU

(11.15 - 12.15) (Tudalennau 39 - 51)

Dr Rebecca Heaton, Aelod Pwyllgor - Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU

Dr David Joffe, Arweinydd Tîm yr Ysgrifenyddiaeth: Dadansoddi ar draws yr economi - Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Hedfan Rhyngwladol a Morgludiant Rhyngwladol) (Cymru) 2018

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2018

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 7 Papurau i'w nodi

**7.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Deben, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ynghylch Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018**

(Tudalennau 52 - 56)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd - 12 Tachwedd 2018

**7.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018**

(Tudalennau 57 - 61)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd- 13 Tachwedd 2018

## 8 Trafod y dystiolaeth lafar

(12.15 - 12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Memorandwm ar Gynigion Cyllideb Ddrafft yr Economi a Seilwaith ar gyfer 2019-20**

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig – 22 Tachwedd 2018**

---

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am y cynigion yng nghyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth fel yr amlinellwyd yng Nghynigion Manwl Cyllideb Ddrafft 2019-20 a gyhoeddwyd ar 23 Hydref 2018 cyn belled â'u bod yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

## 2.0 Y Cyd-destun Strategol

Yn y tymor hwy, bydd angen inni rannu adnoddau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a chydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau effeithlonrwydd yn yr hirdymor. Mae sail ddeddfwriaethol i'r Cynlluniau ac maent yn cefnogi ein hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i symud tuag at economi sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon. Byddaf yn parhau i ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'm cyllidebau i gyflawni'r agenda carbon isel, a sut i gysoni ein cyllideb garbon a chylchoedd cynllunio ein cyllideb ariannol.

### 2.1 Y Fframwaith Deddfwriaethol

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd statudol i leihau allyriadau yng Nghymru, gyda gostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau erbyn 2050, a chyfres o dargedau dros dro a chyllidebau carbon bob pum mlynedd i gefnogi'r ddarpariaeth. Mae hyn yn hanfodol yng nghyd-destun ein rhwymedigaethau presennol i'r DU ac yn rhyngwladol, ac yn gosod llwybr clir tuag at ddatgarboneiddio. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd ac eglurder i fusnesau a buddsoddiadau, a bydd angen newid sylfaenol i o leiaf dri rhwydwaith seilwaith cenedlaethol pwysig – Pŵer, Trafnidiaeth a Gwres. Yr her fydd sicrhau bod y newid hanfodol hwn yn digwydd mewn dull sy'n cynnal effeithiolrwydd y gwasanaethau a fforddiadwyedd i ddefnyddwyr a busnesau. Mae yma gyfle i fanteisio ar y budd economaidd a ddaw yn sgil cyflwyno newid sydd mor drawsffurfiol.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Ddatganiad Ysgrifenedig i lansio'r ymgynghoriad *Cyflawni ein Llwybr Carbon Isel at 2030.* Datblygwyd y 'Syniadau ar gyfer Gweithredu' cychwynnol ar y cyd ar draws y Llywodraeth, gan ystyried argymhellion Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a thystiolaeth ehangach. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Datgarboneiddio yn adolygu'r datblygiadau ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach a gyda'i gilydd, byddant yn sail i'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2019.

Mae nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn sail i

Gynlluniau 2019-20. Rwyf wedi ystyried sut i ymgorffori ymhellach egwyddorion a phum ffordd o weithio'r Ddeddf i ganolbwyntio ar yr hirdymor; gweithio gyda phobl a chymunedau; mabwysiadu dull ataliol o ran ymyriadau economaidd a thrafnidiaeth.

## 2.2 Cynllun Gweithredu ar yr Economi

Yn ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi, mae datgarboneiddio yn un o'r prif elfennau sydd wrth wraidd ein ffyniant yn y dyfodol. Un o'i amcanion allweddol yw hyrwyddo twf cynaliadwy ac atal newid yn yr hinsawdd, gan gydnabod bod economi gynaliadwy a chynhwysol sy'n tyfu yn hanfodol i sicrhau Cymru lewyrchus, iachach, cydnerth a mwy cyfartal.

Yn ogystal â nodi'r camau ehangach rydym yn eu cymryd i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa i ymateb i'r duedd datgarboneiddio fyd-eang, mae'r Cynllun yn darparu newid polisi pwysig mewn sawl maes allweddol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r agenda carbon isel, i annog datgarboneiddio a chefnogi busnesau i wella eu heffeithlonrwydd o ran adnoddau. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i gyflwyno'r newidiadau allweddol hyn, ac ym mis Mai eleni lansiwyd ein model gweithredu newydd ar gyfer cymorth ariannol uniongyrchol. Cynhwysir datgarboneiddio ym mhob un o dair elfen y model gweithredu newydd.

I gydymffurfio â'r Contract Economaidd, mae'n ofynnol i unrhyw fusnes sy'n ceisio cael buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ymrwymo i leihau ei ôl troed carbon, ochr yn ochr â sicrhau twf cynhwysol, gwaith teg a hyrwyddo iechyd a dysgu yn y gweithle. Mae ein Meysydd Gweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ymateb i heriau'r dyfodol. I sicrhau cyllid, mae'n ofynnol i geisiadau am fuddsoddiad gyflawni yn erbyn o leiaf un Maes Gweithredu, ac un o'r rhain yw Datgarboneiddio. Mae ein Cronfa Dyfodol yr Economi yn cydgrynhoi nifer o'r cynlluniau ariannu busnes cyfredol, gan gynnwys Cynllun Diogelu'r Amgylchedd.

Bwriad y newidiadau yw sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa i dderbyn yr holl fanteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol a ddaw yn sgil datgarboneiddio.

## 2.3 Strategaeth Drafnidiaeth

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (''Cymrun Un: Cysylltur Genedl 2008 <https://gov.wales/docs/det/publications/140909-transport-strategy-en.pdf>) yn ddogfen statudol sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006. Gan gwmpasu'r holl ddulliau teithio, mae'n nodi ein blaenoriaethau strategol a'r canlyniadau yr hoffem eu cyflawni, gan ddarparu dolen i flaenoriaethau ehangach yn ogystal â chynlluniau ar lefel awdurdod lleol. Mae Adran 2(3) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw golwg ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac yn darparu'r cyfle i'w hadolygu o bryd i'w gilydd.

Cynigir dull dwy lefel i ddisodli Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd y datganiad polisi trosfwaol yn nodi sut y bydd trafnidiaeth yn gweithio i gyflawni'r pedair prif thema yn Symud Cymru Ymlaen, ac i gyflawni yn erbyn y meysydd blaenoriaeth yn *Ffyniant i Bawb*. Cefnogir y datganiad gan gyfres o ddatganiadau polisi thematig sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru. Bydd hyn, yn ei dro, yn dod o dan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Strategaeth Genedlaethol.

Mae ymgynghoriad ar y gweill gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a chynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu yn Wrecsam, Nantgarw ac Aberystwyth ym mis Medi 2018 ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a bydd hyn yn parhau dros y misoedd nesaf.

Disgwylir i'r Strategaeth Drafnidiaeth ddiwygiedig gael ei chyhoeddi ym mis Mai 2020 a bydd yn canolbwyntio ar symud tuag at ddulliau trafnidiaeth carbon isel er mwyn cyrraedd ein targedau datgarboneiddio, a lleihau'r nifer cynyddol o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd â chysylltiad cryf ag allyriadau trafnidiaeth.

## 3.0 Trosolwg o'r Gyllideb

Mae Cyllideb Ddrafft 2019-20 yn darparu cynllun gwario un flwyddyn ar gyfer refeniw a chynllun gwario dwy flynedd ar gyfer cyfalaf. Er y cyhoeddwyd y gyllideb cyn cwblhau'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Datgarboneiddio yn cydweithio'n agos gyda'r bwriad o gysoni cylchoedd cynllunio'r gyllideb.

Mae'r tabl isod yn darparu trosolwg o'r refeniw a gynllunnir a'r gwariant cyfalaf ar gyfer y portffolio Economi a Thrafnidiaeth, ac eithrio'r meysydd sydd o fewn cylch gwaith Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip a'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.

| **Crynodeb** | **Cyllideb Atodol 2018-19 Mehefin 2018** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21** |
|---|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Adnoddau | 540,429 | 554,581 | 0 |
| Cyfalaf | 435,949 | 546,398 | 575,234 |
| **Cyfanswm** | **976,378** | **1,100,979** | **575,234** |
| Adnoddau Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 23,619 | 53,343 | 0 |
| **CYFANSWM Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **23,619** | **53,343** | **0** |
| **CYFANSWM CYFFREDINOL** | **999,997** | **1,154,322** | **575,234** |

Mae cynlluniau gwario 2019-20 a 2020-21 yn cynnwys buddsoddi mewn rhaglenni carbon isel a sicrhau ein bod yn cynnwys datgarboneiddio yn y datblygiadau seilwaith hirdymor. Rydym hefyd yn cynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol er mwyn llywio ein blaenoriaethau.

## 3.1 Refeniw

O safbwynt gwariant Trafnidiaeth ar raglenni a pholisïau, gellir priodoli y rhan fwyaf o hyn i wariant ataliol sylfaenol, er enghraifft teithio llesol sy'n hyrwyddo dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, ac felly'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a chynyddu lefelau gweithgaredd sy'n arwain at ganlyniadau da i iechyd. Mae gan gynigion trafnidiaeth integredig Metro De a Gogledd Cymru y potensial i arwain at newid trawsffurfiol yn nhermau manteision datgarboneiddio ac economaidd.

Ym mis Mehefin 2018, penododd Trafnidiaeth Cymru ei Phartner Cyflenwi Gwasanaethau Rheilffordd, Keolis Amey i weithredu'r Contract nesaf ar gyfer Gwasanaethau Rheilffordd i Gymru a'r Gororau a ddechreuodd 14 Hydref 2018.

Mae'r penodiad yn cynnig cyfleoedd a manteision sylweddol, gan gynnwys rhaglen fuddsoddi £1.9 biliwn gan y gweithredwr sy'n cynnwys fflyd werdd, newydd sbon ac yn cefnogi ein hamcanion i drawsnewid gwasanaethau gymunedau a phobl ledled Cymru a'r Gororau, drwy:

- Greu rhwydwaith yng nghanol y cymunedau, fydd yn hygyrch i bawb, ac yn weithredol 7 diwrnod yr wythnos.
- Cynyddu symudedd cymdeithasol ac ehangu mynediad, gan gysylltu pobl â swyddi, addysg, iechyd a gweithgareddau hamdden.
- Gwneud Cymru hyd yn oed yn fwy atyniadol i fusnesau a thwristiaid.
- Gwneud teithio ar y rheilffyrdd yn bleserus, a galluogi pobl i weithio a chwarae wrth deithio ar drenau gwyrdd, newydd sbon sy'n defnyddio'r genhedlaeth nesaf o gysylltedd digidol.
- Buddsoddi mewn cerbydau newydd.

Neilltuwyd £171.250 miliwn o gyllid refeniw ar gyfer y fasnachfraint rheilffyrdd a gwelliannau i wasanaethau. Mae'r cytundeb rheilffordd newydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i leihau carbon.  Caiff rheilffyrdd Treherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, Coryton a Rhymni sy'n rhedeg i'r gogledd o orsaf Stryd y Frenhines Caerdydd eu trawsnewid i redeg yn llwyr ar drydan, gyda'r holl drydan hwnnw'n dod o ffynonellau cynaliadwy (50% o Gymru).  Erbyn y bumed flwyddyn, bydd allyriadau carbon yr holl wasanaeth wedi gostwng 25% yn sgil cyflwyno'r genhedlaeth ddiweddaraf o Unedau Diesel Amlgerbyd (DMU). Yn ogystal, bydd y cytundeb Gwasanaethau Rheilffordd newydd yn golygu buddsoddiad o £800 miliwn mewn cerbydau newydd, a fydd hefyd yn lleihau'r allyriadau o'r cerbydau hynny y mae'n rhaid iddynt weithredu ar ddiesel.

Bydd ein dull o gynyddu'r newid moddol o ddefnydd cerbydau preifat i drafnidiaeth gyhoeddus, a hwylusir gan y gwasanaethau rheilffordd newydd, yn chwarae rhan fawr o ran lleihau effeithiau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd y targedau lleihau carbon uchelgeisiol yn cynorthwyo i wella ansawdd aer, a bydd moderneiddio'r adnoddau yn y gorsafoedd yn annog mwy o bobl i ddewis dulliau teithio llesol.

Gall ein dull o gaffael gwasanaethau hefyd wneud cyfraniad arwyddocaol at gyflawni ein targedau lleihau carbon. Mewn cydweithrediad â Thrafnidiaeth Cymru, ychwanegwyd offeryn i fesur allyriadau carbon i'r Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau yn *Ffyniant i Bawb,* rwyf wedi rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn y gwasanaethau bysiau, i annog newid dull teithio o geir i drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r cynlluniau'n darparu £60 miliwn ar gyfer tocynnau teithio rhatach a swm o £32 miliwn i gynnal bysiau sy'n parhau'r grant cynnal bysiau o £25 miliwn.  Mae hefyd yn cynnwys £1 miliwn i gadw'r teithio am ddim ar benwythnosau Traws Cymru, £1 miliwn i wella'r cynllun tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc a £2 filiwn i gefnogi adolygiad o fysiau.

Mae gwella ansawdd yr aer drwy leihau allyriadau carbon yn un o amcanion allweddol y gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Cadarnhaodd astudiaeth a gomisiynwyd yn ddiweddar ystod o fesurau sydd angen eu cyflwyno i annog mwy o bobl, ac yn enwedig cymudwyr i ddefnyddio bysiau yn lle ceir. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys: tocynnau teithio atyniadol, gwell prydlondeb, llai o dagfeydd, gwella amlder, safonau ansawdd uchel a mwy o flaenoriaeth i fysiau.

Mae ein cynlluniau'n cydnabod y pwysigrwydd gweithio gyda busnesau i hyrwyddo datgarboneiddio a lleihau olion traed carbon. Mae cyllideb Busnes Cymru o £5.2 miliwn yn cefnogi arferion busnes cyfrifol ac yn darparu cyngor am ddefnyddio adnoddau'n effeithiol i entrepreneuriaid a busnesau, yn ogystal â chyngor am gynlluniau gweithredu amgylcheddol, gweithdai a gweithgareddau rhwydweithio.  Datblygwyd llyfr nodiadau ac offeryn rhyngweithiol i hyrwyddo'r agenda carbon ymhellach.

Mae Busnes Cymru hefyd yn cefnogi'r Addewid Twf Gwyrdd i fusnesau arddangos eu heffaith gadarnhaol ar y bobl a'r lleoedd o'u hamgylch ac ymuno â chymuned gynyddol o gyrff blaengar. Mae'r Addewid Twf Gwyrdd yn rhan o'r cymorth cynaliadwyedd arbenigol sy'n agored i bob busnes bach a chanolig Cymreig beth bynnag yw eu sector diwydiant. Drwy lofnodi'r addewid, gofynnir i bob cwmni ymrwymo i un neu fwy o gamau gweithredu i'w helpu i leihau effaith neu sicrhau perfformiad cynaliadwy.

Wrth gyflwyno fy nghynlluniau, rwyf wedi ystyried yr holl feysydd yn fy mhortffolio ac wedi mynd i'r afael â'r meysydd sy'n cael effaith arwyddocaol ar olion traed carbon. Er enghraifft, mae'r gyllideb digwyddiadau mawr £3.18 miiwn yn cefnogi digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol pwysig. Wrth

reswm mae gan ddigwyddiadau chwaraeon moduro olion traed carbon arwyddocaol, ond mae eraill, er enghraifft gŵyl Green Gathering, nid yn unig yn ceisio lleihau olion traed carbon ond yn hyrwyddo byw yn gynaliadwy. Mae disgwyl i'r holl ddigwyddiadau sy'n derbyn cyllid gydymffurfio â'n polisi amgylcheddol, ac i weithio tuag at Safon 20121 BS ISO ar gyfer Rheoli Digwyddiadau Cynaliadwy. O'r 23 o ddigwyddiadau a gefnogwyd yn 2017, roedd gan 80% bolisïau amgylcheddol a chynaliadwy ffurfiol mewn grym, a chyflwynodd 60% camau lliniaru er enghraifft mentrau trafnidiaeth gyhoeddus i gyfyngu ar yr effaith ar yr amgylcheddau lleol. Mae swyddogion digwyddiadau mawr yn gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn yr adran Amgylchedd i annog arfer gorau ar draws yr holl ddigwyddiadau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyllideb Datblygu Busnes (Galluogi Mentrau) o £11 miliwn ar gael i annog twf cynaliadwy ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae newid i economi carbon isel yn cyflwyno heriau a chyfleoedd unigryw o ran ynni adnewyddadwy. Yn nhermau'r ffordd yr ydym yn cynhyrchu ynni, mae'n rhaid sicrhau bod y seilwaith yr ydym yn buddsoddi ynddo yn helpu i gynhyrchu ynni carbon isel, yn gwella trosglwyddo a dosbarthu ynni ac yn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol, ac yn galluogi technolegau doeth a mesuryddion i gynnig datrysiadau hyblyg.

Mae cyllid o £0.2 miliwn i'r Ganolfan Ymchwil Rhwydwaith Adweithyddion Dŵr Berw yn cefnogi ymchwil ddiwydiannol ar y cyd, sydd heb ei ddefnyddio yn y DU o'r blaen. Gallai technoleg niwclear fod yn sail i ffynhonnell ynni carbon isel yn y dyfodol. Prifysgol Bangor sy'n arwain y gwaith ar Adweithyddion Dŵr Berw, mewn partneriaeth ag Imperial College ac fe'i hariennir ar y cyd gan Hitachi GE Nuclear. Mae cyllid refeniw'r sector niwclear o £1.2 miliwn yn cefnogi ystod eang o gyfleoedd gwaith yn Ynys Môn a Bangor, a bydd yn cefnogi prosiect Wylfa Newydd, a fydd yn dod a chyfleoedd gwaith a ffynhonnell ynni parhaol i genedlaethau'r dyfodol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gadwyn gyflenwi ei hunan, gan ddarparu cefnogaeth uniongyrchol sylweddol drwy raglenni a gydnabyddir gan y diwydiant, er enghraifft Fit for Nuclear <https://businesswales.gov.wales/news-and-blogs/news/fit-4-nuclear-programme-%E2%80%93-funding-available> a galluogi rhyngweithio rhwng sectorau drwy ein cefnogaeth o Fforwm Niwclear Cymru a'i 150 o aelodau.

## 3.2 Cyfalaf

Bydd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn darparu cyngor arbenigol ac annibynnol ar anghenion a blaenoriaethau seilwaith strategol. Bydd y ffocws cychwynnol ar ddatgarboneiddio a thwf gwyrdd a glas. Bydd yn ystyried y cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) gan gynnwys rheolaeth gynaliadwy ar yr adnoddau a bioamrywiaeth naturiol a chadernid cyfrifoldebau'r ecosystemau.

Roedd effaith carbon yn un o'r ystyriaethau allweddol wrth ddyrannu'r cyllid cyfalaf newydd ochr yn ochr ag adolygiad canol tymor o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Bydd y buddsoddiadau yn y portffolio Economi a

Thrafnidiaeth yn cefnogi'r nodau llesiant, yn arbennig yr ymdrech i gyflwyno twf cynaliadwy ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. I gydnabod y manteision pellgyrhaeddol sy'n gysylltiedig â lefelau uwch o deithio llesol, cafwyd dyraniad ychwanegol o £20 miliwn yn 2019-20 a £30 miliwn yn 2020-21 i gefnogi ein Cronfa Teithio Llesol ddynodedig. Bydd y cynlluniau teithio llesol yn cysylltu ardaloedd preswyl gyda safleoedd cyflogaeth ac addysgu a gwasanaethau allweddol, gan alluogi llawer mwy o deithiau ar droed neu ar feic bob dydd, gan arwain at fanteision iechyd i unigolion a chymunedau, yn ogystal â manteision economaidd, a lleihau tagfeydd, llygredd ac allyriadau. Bydd y cyllid ychwanegol o £26 miliwn bob blwyddyn i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol hefyd yn canolbwyntio ar fannau cyfyng a thagfeydd, gan gynnwys y coridorau bysiau, gyda'r bwriad o wella amseroedd teithio.

Mae'r Cymoedd Technoleg yn bwriadu diogelu'r economi at y dyfodol drwy fanteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o bedwerydd chwyldro diwydiannol, drwy annog mabwysiadu'r technolegau digidol newydd sy'n cefnogi diwydiannau blaengar, gan gynnwys y sector modurol. Bydd dyraniad ychwanegol o £20 miliwn dros 2019-20 a 2020-21 yn cyfrannu at gyflenwi datblygiadau economaidd yn rhanbarthol, gan greu diwydiannau at y dyfodol ar sail ysbryd y Contract Economaidd. Mae hyn yn ffurfio rhan o ymrwymiad £100 miiwn dros 10 mlynedd, i greu o leiaf 1,500 o swyddi cynaliadwy yn nes adref ar draws y Cymoedd Technoleg, gyda'r prif ffocws ar Lynebwy ac ardal Blaenau Gwent ehangach.

Mae lefelau uwch o arloesedd economi gylchol drwy'r sefydliadau academaidd a busnesau hefyd yn bwysig er mwyn datblygu economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Rwyf wedi cynnal cyllideb cyfalaf o £4 miliwn yn 2019-20 a 2020-21 ar gyfer arloesi i fusnesau. Mae hyn yn dennu cyllid sylweddol gan yr UE a buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat. Mae'r buddsoddiad, ynghyd â'r buddsoddiadau yn y blynyddoedd blaenorol, yn cynnwys £74.33 miliwn o gyllid yr UE, a £55.8 miliwn o Fuddsoddiad gan y Sector Preifat gyda chyfanswm o £130.13 miliwn yng nghylch 2014-20 Rhaglen Gyllido'r UE. Mae'r rhaglenni SMART (SMART nnovation, SMART Cymru a SMART Expertise) yn cefnogi ailgylchu, ailddefnyddio, mwy o ddefnyddioldeb, llai o ddarfodiad, llai o wastraff, a chynllun ar gyfer cynhyrchu a dewis deunyddiau. Bydd hyn yn digwydd law yn llaw â datblygu cynhyrchion, prosesau a chynlluniau newydd, ac yn cefnogi'r gwaith o sicrhau Cymru lewyrchus, gydnerth sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Bydd buddsoddi mewn seilwaith a chaffael gwasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun y rheilffyrdd o fantais sylweddol i'r busnesau a leolir yng Nghymru. Fel cyfraniad i'r gymuned ehangach, bydd gwasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru yn trawsnewid rheilffyrdd segur er mwyn diwallu anghenion lleol yn well, yn cefnogi adfywio a phrosiectau cymunedol, ac o ganlyniad yn cynorthwyo i gynnal y cyfleusterau lleol hynny sy'n dod â phobl at ei gilydd. Bydd y buddsoddiad o £44.9 miliwn yng ngweithrediad Depo Ffynnon Taf (2019-20 £16.2 miliwn a 2020-21 £28.7 miliwn) yn allweddol er mwyn galluogi Cam 2 y Metro. Bydd yr orsaf yn cynnal fflyd o gerbydau newydd a modern, ac yn rhedeg ar reilffordd graidd y cymoedd. Mae datblygu buddsoddiad cynaliadwy yn y rheilffyrdd yn cefnogi'r

weledigaeth o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus cyflym, dibynadwy a fforddiadwy sy'n cysylltu'r prif aneddiadau.

Rydym yn parhau i weithio gyda busnesau yn y sector ynni, sydd drwy rinwedd eu gweithgareddau, yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'r Cynllun Diogelu'r Amgylchedd yn cefnogi'r diwydiannau mwyaf dwys o ran carbon i fuddsoddi mewn technolegau sy'n darparu manteision amgylcheddol a gosod y technolegau hynny sy'n gwneud llawer mwy na'r isafbwynt cyfreithiol gofynnol. Mae'r cynllun wedi'i gydgrynhoi yng Nghronfa Dyfodol yr Economi. Mae'n rhaid i unrhyw fusnes brofi ei ymrwymiad i'r Contract Economaidd a datblygu cynnig sy'n cyd-fynd ag o leiaf un o'r pum Maes Gweithredu, gan gynnwys datgarboneiddio, er mwyn cael cymorth. Mae ymgynghoriad Cyflawni ein Llwybr Carbon Isel Hyd at 2030 yn cynnwys cynnig i ystyried dyfodol Cynllun Diogelu'r Amgylchedd, sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2020. Ystyrir yr ymatebion ar gyfer y Cynllun Cyflawni Carbon Isel.

Bydd darparu safleoedd busnes newydd yn cyflawni datblygiad cynaliadwy ac yn arbed ynni drwy gynlluniau o ansawdd uchel, yn unol â Pholisi Adeiladu Cynaliadwy (Tachwedd 2017) Llywodraeth Cymru. Mae cyfanswm y gyllideb cyfalaf ar gyfer Seilwaith Eiddo gwerth £17 miliwn dros ddwy flynedd, sy'n cynnwys ffrydiau cyllido'r UE a gwerthu tir ac eiddo, yn cefnogi'r rhaglen. Bydd asesiadau datgarboneiddio yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r manteision economaidd, er enghraifft creu swyddi yn y busnesau sy'n meddiannu'r safleoedd hyn yn ogystal ag yn ystod y cyfnodau adeiladu. Mae adolygiad yn mynd rhagddo ar draws y portffolios i archwilio'r safleoedd a berchnogir sydd â'r gallu i gefnogi datblygiadau carbon isel neu di-garbon, yn arbennig mewn perthynas â datblygiadau tai.

Yn 2019-20, mae'r cyfanswm refeniw a chyllid cyfalaf o £142 miliwn wedi'i gynnwys yn y Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd. Rydym yn canolbwyntio'n arbennig ar leihau allyriadau mewn lleoliadau allweddol ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd sydd wedi'u clustnodi fel rhai sydd â'r potensial i fynd uwchlaw trothwy'r UE, yn ogystal â gweithredu'r hanfodion ar draws y rhwydwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys pecyn o ymyriadau, ond wedi'i gysylltu â'r gofyniad craidd bod rhwydweithiau ac amseroedd teithiau dibynadwy yn caniatáu dewis gwybodus, ac yn galluogi defnyddwyr ffyrdd i newid patrymau eu hamseroedd teithio.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein hymyriadau wedi'u cynllunio i leihau carbon a gynhyrchir gan y diwydiant adeiladu ac allyriadau cerbydau, ac rydym yn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau arloesol ac arferion adeiladu gorau, i leihau gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau ar safleoedd gyda'r bwriad o gyflwyno seilwaith i gefnogi'r ddarpariaeth o gerbydau trydan a cherbydau cysylltiedig ac awtonomaidd yn ogystal â chraffu ar ein fflyd ein hunain i sicrhau, lle y bo hynny'n bosibl, ein bod yn mabwysiadu'r datrysiad mwyaf ecogyfeillgar, er enghraifft y safon Ewropeaidd Ddiweddaraf i Gerbydau Nwyddau Trwm a hyd yn oed treialu cerbydau Swyddogion Traffig.

Fel nodais yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 11 Hydref 2018, bydd yr hwb ariannol o £2 filiwn ar gyfer mannau gwefru trydan, a gytunwyd yng nghytundeb y Gyllideb Dwy Flynedd gyda Phlaid Cymru, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer creu rhwydwaith cenedlaethol o fannau gwefru cyflym i'r cyhoedd. Byddwn yn canolbwyntio ar leoliadau ar neu gerllaw ein rhwydwaith ffyrdd strategol, gan roi pwyslais arbennig ar deithiau rhwng y Gogledd a'r De a rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin.

Mae'r Cytundeb Cyllideb Dwy Flynedd gyda Phlaid Cymru hefyd wedi darparu mwy o gyllid ar gyfer gwelliannau o'r gogledd i'r de a chynlluniau ar gyfer tagfeydd mewn mannau cyfyng o £15 miliwn yn 2019-20 ar yr A487 a'r A470 a fydd hefyd yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon.

Rydym chwilio'n barhaus am ffyrdd o ddatgarboneiddio ein gweithgareddau - o newid i oleuadau ffyrdd LED ar raddfa fawr i sicrhau mai'r cerbydau a ddefnyddir ar gyfer ein gweithgareddau yw'r rhai mwyaf ecogyfeillgar sydd ar gael at y pwrpas. Bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys cwmpasu a phrofi gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, er mwyn cefnogi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Bydd y buddsoddi mewn Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o fynd i'r afael â thagfeydd a gwella allyriadau cerbydau, yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd i gerbydau trydan a thechnolegau eraill. Byddwn hefyd yn disgwyl i'n Contractwyr fabwysiadau dulliau arloesol a'r arferion adeiladu gorau i arddangos sut y byddant yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon wrth adeiladu.

Rydym yn agosáu at ddiwedd y broses benderfynu am yr M4, a bydd yn rhaid penderfynu, ar y cyd â Metro De Cymru, a oes cyfiawnhad i'r prosiect mawr hwn i ddarparu'r datrysiad cywir a hirdymor i'r problemau sy'n gysylltiedig â'r porth hwn i Gymru, ac ystyried yr holl oblygiadau, gan gynnwys carbon.

Roedd yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn gyfle i bawb ddweud eu dweud. Mae'r cynigion, a'r holl ddewisiadau a awgrymwyd, wedi bod yn agored ac wedi bod yn destun proses graffu fanwl gan arolygwyr annibynnol dros gyfnod o flwyddyn, ac mae'u hadroddiad yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r cyllid cyfalaf traddodiadol wedi'i glustnodi yn y cronfeydd canolog ar gyfer yr M4, yn dibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus (£173.41 miliwn yn 2019-20 a £215.319 miliwn yn 2020-21).

Mae'n hanfodol bwysig buddsoddi'n ofalus a doeth mewn carbon. Yn unol â'm cyfarwyddyd, bu'r Prosiect M4 yn destun un o'r asesiadau carbon mwyaf cynhwysfawr a gynhaliwyd erioed ar brosiect seilwaith yng Nghymru. Mae'r ystadegau amgylcheddol cadarnhaol yn cynnwys:

- Llai o lygredd aer mewn 30,000 o gartrefi
- Mae angen llai na 2% o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar Wastadeddau Gwent
- Plannu 110 o hectarau o goetir newydd, mwy na dwbl y coetir y mae'r Cynllun yn eu defnyddio

- Mae mwy na ½ y llwybr ar dir llwyd
- Mae'r llwybr 2.8km yn fyrrach, sy'n lleihau allyriadau carbon

Cyhoeddwyd Adroddiad ar Ddatblygiad Cynaliadwy, sy'n disgrifio sut y bydd y Cynllun arfaethedig yn cyd-ffynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 â'n hegwyddorion datblygu cynaliadwy.

Pe bai'r cynllun yn mynd yn ei flaen, byddem yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau darpariaeth a fyddai'n gwneud y mwyaf o'r manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol hirdymor i Gymru gyfan, i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## 4.0 ARGYMHELLION Y PWYLLGOR – ADRODDIAD DIWEDDARU CHWEFROR 2018

Yn dilyn fy ymateb ysgrifenedig i argymhellion yr adroddiad, rwyf wedi darparu diweddariadau fel a ganlyn:

### 4.1 Cysoni polisïau economi a thrafnidiaeth gyda pholisïau a deddfwriaethau eraill Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 1**

Mae gwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o fewn ein meddylfryd strategol a'n proses datblygu polisïau wedi llywio cyfeiriad polisïau ac wedi dylanwadu ar hynny. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn adlewyrchu'r nodau llesiant, amcanion a ffyrdd o weithio ac yn cyd-fynd â hwy. Yn benodol felly, gwneud Cymru'n wlad yr ydym i gyd eisiau byw ynddi nawr ac yn y dyfodol, sy'n canolbwyntio ar ymyriadau sy'n rhoi'r offer sydd eu hangen ar bobl, busnesau a llefydd er mwyn llunio eu dyfodol eu hunain. Mae'r weledigaeth yn cefnogi'r saith nod llesiant ac yn hanfodol i wireddu Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; a Chymru sy'n fwy cyfartal.

Mae'r Cynllun yn cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o gyflawni saith o'r deuddeg amcan llesiant, yn ogystal â chyfrannu at y pump arall:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg.
- Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw.
- Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid.
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig.
- Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Mae datblygu newidiadau polisi allweddol, er enghraifft y Contract Economaidd a'r Meysydd Gweithredu, yn diogelu effeithiau ac egwyddorion ehangach y Ddeddf.

Mae'r Cynllun yn arddangos y pum ffordd o weithio, gydag agwedd hirdymor i fynd i'r afael â chynhyrchiant ac amrywiadau gofodol. Mae'n cydnabod yr angen am dwf cynhwysol gan fabwysiadau dull integredig ac ar y cyd gyda'r holl rhanddeiliaid i gefnogi mentrau'r economi a thrafnidiaeth. Bydd y Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a gyhoeddir ym mis Mai 2020 hefyd yn seiliedig ar ymgysylltiad ac ymgynghoriad sylweddol, a bydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth.

Bydd yr effeithiau yn y dyfodol yn cael eu hasesu fel mater o drefn wrth asesu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Argymhelliad 2**

Mae sesiynau hyfforddi yn parhau i gefnogi swyddogion yn fy mhortffolio i yn ogystal â Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o nodau a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae datblygu mentrau ar gyfer datblygiad economaidd a thrafnidiaeth yn golygu ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawmi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r trydydd sector. O ganlyniad, mae'r pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori yn y ddarpariaeth.

**Argymhelliad 3**

Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r ymrwymiadau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol sy'n cael eu hystyried yn y strategaethau allweddol i gefnogi *Ffyniant i Bawb* o fewn fy mhortffolio. Yn dilyn y diweddariad ym mis Mai, bu nifer o ddatblygiadau pwysig sy'n cefnogi'r polisi. Yn gyntaf, bydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn cwrdd am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2018. Penodwyd y comisiynwyr am gyfnod o dair blynedd i ddatblygu blaenoriaethau buddsoddi hirdymor y Comisiwn drwy roi cyngor annibynnol ac arbenigol inni.

Yn ogystal, cymeradwywyd y Canllaw Coridor Gwyrdd, ac mae rhaglen o fentrau'n cael ei threfnu i dargedu'r coridorau yng Nghymru.

Rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ein Cynllun Ansawdd Aer, ac wedi cyflwyno mesurau i leihau lefelau llygredd ar rannau o'r rhwydwaith sy'n croesi'r trothwy diogel. Yn ogystal, mae diweddariad o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Mai 2020 yn cynnwys polisïau sy'n amlinellu camau gweithredu ar ein rhwydwaith trafnidiaeth a fydd yn cryfhau ein hecosystemau ac yn lliniaru'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

## 4.2 Y Newid yn yr Hinsawdd

**Argymhelliad 4**

Rwy'n darparu diweddariad manwl ynglŷn â'r broses o asesu cynlluniau gwella priffyrth i gadarnhau fod yr asesiad carbon a gwerthusiad o berfformiad yn rhan annatod o'r broses.

Mae'r Astudiaethau Mannau Cyfyng a Chyfleoedd Goddiweddyd yn gyfres o brosiectau i fynd i'r afael â thagfeydd ar y ffyrdd a gwella dibynadwyedd Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru. Caiff yr astudiaethau eu harfarnu yn unol ag Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) sydd, drwy gydol y broses arfarnu, yn sicrhau bod datrysiadau wedi'u datblygu i gyflawni'r anghenion deddfwriaethol ynghyd â pholisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Ystyrir effeithiau'r Cynllun drwy gydol y broses WelTAG. Cynhyrchir Adroddiad ar Asesiad o'r Effeithiau (IAR) yn ystod Cam 1, ac mae'n parhau'n ddogfen fyw sy'n cynyddu yn ystod pum cam WelTAG. Mae'n cyflwyno tystiolaeth fanwl ar yr effeithiau a ragwelir o holl opsiynau'r cynllun sydd o dan ystyriaeth, ac yn cefnogi crynodebau o'r effeithiau a gyflwynwyd yn nogfen y cam WelTAG.

Mae **Camau 1 i 2 (Achos Strategaeth/Busnes)** o broses arfarnu WelTAG yn sicrhau bod yr holl faterion a chyfyngiadau amgylcheddol yn hysbys i bawb at ddibenion datblygu amcanion y cynllun. Gwneir hyn drwy gyrchu data oddi wrth bartneriaid ac ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliad priodol drwy gydol y broses WelTAG.

Yn nhermau ei gymhwyso i astudiaethau a wnaed hyd yn hyn, nodir amodau ansawdd aer yn ardal yr astudiaeth arfaethedig yng Nghamau 1 a 2. Gwneir hyn drwy gyrchu data drwy reolaeth ac adrodd am ansawdd aer yn lleol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn ogystal, gofynnir i swyddogion yn yr Awdurdodau Lleol am ddata gwaelodlin a monitro ansawdd aer.

Ystyrir yr effeithiau ehangach yn ystod y broses arfarnu. Enghraifft dda o hyn yw'r modelu traffig a wnaed er mwyn deall ymddygiad trafnidiaeth yn llawn. Yn dibynnu ar y math o ddatrysiad, mae'r modelu yn gallu rhagweld llif traffig yn dilyn ymyrraeth, ac effeithiau'r datrysiad ar y newid moddol. Mae canlyniadau'r dadansoddiad yn cael eu crynhoi o fewn yr adroddiad asesu effeithiau byw.

Mae'r canlyniadau'n cael eu harfarnu drwy ystyried yr amodau ansawdd aer presennol. Hyrwyddir datrysiadau sy'n cynnig lleihau'r effeithiau. Rhoddir mwy o ystyriaeth i leoliadau lle mae ansawdd yr aer yn agosáu at, neu wedi cyrraedd, lefelau annerbyniol. Cofnodir a rheolir yr effeithiau o fewn yr Adroddiad Asesu Effeithiau.

**Camau 3 a 4 (Busnes Llawn a Gweithredu)** Yn dilyn y broses arfarnu, caiff y datrysiadau eu datblygu'n gynllun manwl. Yn ystod y cam hwn, mae cynlluniau'n cael eu llunio i osod Safonau Cenedlaethol. Mae'r safonau'n rhagnodi cyfres o asesiadau effaith pellach i sicrhau bod effeithiau llawn y cynllun terfynol yn cael eu deall yn llwyr. Mae'r effeithiau'n cael eu hystyried yn ystod y cyfnod adeiladu a bywyd y seilwaith newydd. Unwaith eto, cofnodir yr effeithiau o fewn yr Adroddiad Asesu Effeithiau Byw.

Mae **Cam 5 (Ar ôl gweithredu)** yn golygu monitro a gwerthuso'r ateb(ion) a roddwyd ar waith, er mwyn cofnodi a chymharu'r canlyniadau yn erbyn y rhai a ragwelwyd. Yng nghyd-destun ansawdd aer, bydd y lefelau'n cael eu monitro am gyfnod penodol ar ôl eu gweithredu, gan ddefnyddio safleoedd monitro sy'n bodoli'n barod neu drwy greu rhai newydd. Yn gyffredinol, pennir yr angen ar gyfer monitro ar ôl gweithredu a'r fethodoleg cyn y cam gweithredu ei hun a'i nodi yn yr Adroddiad Asesu Effeithiau. Os bydd materion annisgwyl yn codi, gellir defnyddio Cam 5 y gwaith i lywio'r mesurau i liniaru'r effeithiau niweidiol annisgwyl neu i adeiladu ar fanteision annisgwyl.

## 4.3 Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a chynllun targedu carbon Cymru

### Argymhelliad 5

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Ddatganiad Ysgrifenedig ar 28 Mehefin 2018 yn nodi'r penderfyniadau parthed pennu lefel y targedau allyriadau dros dro, a'r ddwy gyllideb garbon gyntaf i Gymru. Mae'r penderfyniadau yn gyson â chyngor gan ein cynghorwyr statudol, Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r rheoliadau yn cael eu drafftio ar hyn o bryd i'w gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr.

Lansiwyd yr ymgynghoriad Cyflawni ein Llwybr Carbon Isel Hyd at 2030 ym mis Mehefin. Mae'r Syniadau ar gyfer Gweithredu cychwynnol wedi cael eu datblygu ar y cyd ar draws y Llywodraeth, gan ystyried argymhellion Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a thystiolaeth ehangach. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Datgarboneiddio yn adolygu'r datblygiadau ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach a gyda'i gilydd, byddant sail i'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel a gyhoeddir ym mis Mawrth 2019. Byddaf yn parhau i ystyried sut i ddefnyddio fy nghyllidebau orau er mwyn cyflawni'r agenda carbon isel.

## 4.4 System Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS)

### Argymhelliad 6

Ar hyn o bryd rydym yn aros am wybodaeth gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol mewn perthynas â'r EU ETS a byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn fuan.

## 4.5 Polisi Trafnidiaeth

**Argymhelliad 7**

Bydd ein Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru, a gyhoeddir ym mis Mai 2020, yn datblygu polisïau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiadau teithio ac yn lleihau'r effaith negyddol a gaiff traffig ar ein cymunedau ac ansawdd bywydau. Mae'r Strategaeth yn cefnogi gofynion deddfwriaethol: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd hefyd yn cyflawni ein strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*. Nodir hyn yn **Adran 2.3 Strategaeth Drafnidiaeth**.

## 4.6 Effaith amgylcheddol ffordd liniaru'r M4

**Argymhelliad 8**

Ceir manylion am y diweddaraf o safbwynt ystyriaethau amgylcheddol yr M4 yn **Adran 3.2 Cyfalaf**. Mae'r dull a gymeradwyir gan WelTAG 2017 yn disgwyl asesiadau cadarnhaol a negyddol o'r effeithiau a'r mesurau lliniaru. Bydd y Pwyllgor yn cael rhagor o wybodaeth ar ddiwedd y broses penderfynu.

## 4.7 Trafnidiaeth gynaliadwy a chefnogaeth i gerbydau carbon isel

**Argymhelliad 9**

Rydym yn parhau i weithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod cymhwyso WelTAG 2017 yn cyflawni'r nodau a ffyrdd o weithio fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae adolygiad o'r prosiectau a ddefnyddiodd y pecyn cymorth newydd yn mynd rhagddo, ac os gellir gwella'r dull o gymhwyso WelTAG 2017, bydd nodiadau cyfarwyddyd atodol yn cael eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 10**

Rhoddais ddiweddariad i holl Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â'r prosiect £2 filiwn Seilwaith ar gyfer Cerbydau Trydan drwy fy Natganiad Ysgrifenedig ar 11 Hydref 2018, ac ymrwymais i ddarparu diweddariad pellach yn y gwanwyn pan fyddwn yn cynnal proses gaffael.

## 4.8 Ansawdd Aer

**Argymhelliad 11**

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ar fanteision cyflwyno terfynau cyflymder 20mya, gan ddefnyddio tystiolaeth yr awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno parthau 20mya, ac unrhyw welliannau i ansawdd aer o ganlyniad i leihau allyriadau. Bydd y gwaith hwn yn sail i'n camau nesaf mewn perthynas â

chyflwyno terfynau cyflymder 20mya, ac ymyriadau cysylltiedig i gefnogi rhaglen Aer Glân i Gymru.

**Argymhelliad 12**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddyd Ansawdd Aer yr Amgylchedd Ewropeaidd. Mae'r Cyfarwyddyd a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 ("Rheoliadau Cymru") yn darparu gwerthoedd terfyn fesul-awr a blynyddol ar gyfer NO2 o 40 microgram fesul metr ciwbig.

Mae Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru, a thrwy fodel Mapio Hinsawdd Llygredd DEFRA, nodwyd 5 lleoliad lle yr oedd lefelau NO2 yn uwch na therfynau'r Gyfarwyddeb a Rheoliadau Cymru:

1. Yr A494 yng Nglannau Dyfrdwy.
2. Yr A483 gerllaw Wrecsam.
3. Yr M4 rhwng cyffyrdd 41 a 42 (Port Talbot).
4. Yr M4 rhwng cyffyrdd 25 a 26 (Casnewydd).
5. Yr A470 rhwng Glan-bad a Phontypridd.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru'r cyntaf o nifer o archwiliadau manwl gan gynnwys modelu'n defnyddio'r dull a nodwyd yn yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ym mis Hydref 2017. Gwnaed yr archwiliadau hyn i ganfod y mesurau tebygol y byddai eu hangen i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd a Rheoliadau Cymru cyn gynted â phosibl.

Roedd y mesurau a nodwyd yng Nghamau 1 a 2 WelTAG a oedd â'r potensial i olygu cydymffurfio ym mhob un o'r pum lleoliad wedi'u cynnwys yn nrafft Cynllun Atodol Llywodraeth Cymru a fu'n destun ymgynghoriad rhwng 25 Ebrill a 19 Mehefin. Oherwydd bod arfarniadau Camau 1 a 2 WelTAG wedi nodi bod modd i derfynau cyflymder wella ansawdd yr aer ar unwaith ym mhob un o'r pum lleoliad, gosodwyd terfynau cyflymder o 50 mya dros dro i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn yr wythnos yn dechrau 18 Mehefin.

Mae effeithiau'r terfynau cyflymder dros dro ar ansawdd aer yn cael eu monitro'n fanwl drwy brofion wrth ymyl y ffordd a chaiff y canlyniadau eu bwydo i'r ymchwiliadau a'r gwaith modelu er mwyn sefydlu pa fesurau fyddai'n debygol o arwain at gydymffurfio cyn gynted â phosibl. Cyhoeddwyd Cynllun Atodol Interim Llywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf tra'n aros i ymchwiliadau Cam 3 WelTAG gael eu cwblhau, h.y. nodi'r mesurau terfynol er mwyn cydymffurfio â'r terfyn NO2.

Ar 21 Medi 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad parthed yr arfarniadau diweddaraf Cam 3 WelTAG. Mae swyddogion yn gofyn am safbwyntiau'r cyhoedd a phartïon eraill perthnasol ar ganfyddiadau'r ymchwliiadau ac mae'r ymgynghoriad ar agor tan 2 Tachwedd 2018. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion, gan gynnwys yr adroddiadau arfarnu ar y tudalennau ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r arfarniadau wedi canfod bod gosod terfynau cyflymder o 50 mya yn debygol o helpu i gyflawni cydymffurfiaeth â gwerthoedd NO2 cyn gynted â phosibl ar yr A494, yr A483, yr M4 rhwng cyffyrdd 41 a 42 a'r A470. Ar yr M4 rhwng cyffyrdd 25 a 26, canfu'r arfarniadau mai cyflwyno terfyn cyflymder 50mya yn ystod y cyfnodau tawel a rhwng cyfnodau prysur drwy'r system Terfyn Cyflymder Newidiol ar y cyd â gwyriad newidiol (annog traffig lleol sy'n mynd i Gasnewydd i adael yr M4 cyn cyffordd 25 a 26 pan fo crynodiadau NO2 yn debygol o fod yn uchel) yw'r mesur mwyaf tebygol i helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â gwerthoedd NO2.

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, bydd y swyddogion yn adolygu'r canfyddiadau ac yn adrodd yn ôl i'r Gweinidogion am y camau gweithredu mwyaf addas. Bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i'r Cynllun Atodol terfynol, i'w gyhoeddi ar 30 Tachwedd 2018.

**Argymhelliad 13**

Mae'r gwaith o ddiwygio Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn mynd rhagddo, a bwriedir ei chyhoeddi ym mis Mai 2020. Bydd y Strategaeth newydd yn cynnwys polisïau sy'n nodi ein targedau datgarboneiddio a gwella ansawdd aer. Rydym yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ar fanteision cyflwyno terfynau cyflymder 20mya, gan ddefnyddio tystiolaeth yr awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno parthau 20mya, ac unrhyw welliannau i'r ansawdd aer o ganlyniad i leihau allyriadau. Bydd y gwaith hwn yn sail i'n camau nesaf mewn perthynas â chyflwyno terfynau cyflymder 20mya, ac ymyriadau cysylltiedig. Bydd hefyd yn sail i'n polisïau diogelwch ar y ffyrdd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

## 4.9 Cymorth i fusnesau

**Argymhelliad 14**

Rydym ar hyn o bryd yn cynnal archwiliad o'r cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd o fodel gweithredu newydd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Contract Economaidd, Meysydd Gweithredu a'r Gronfa Dyfodol yr Economi). Mae hyn yn cynnwys arweiniad mewnol diwygiedig ar gyfer rhoi'r model gweithredu newydd ar waith. Byddaf yn diweddaru Aelodau'r Cynulliad am ganlyniad yr archwiliad ar ôl iddo gael ei gwblhau. Disgwyliaf i hyn ddigwydd cyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r mesurau i sicrhau bod pob tacsi a bws yng Nghymru yn gadael dim ôl troed carbon o fewn 10 mlynedd, a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Deben
d/o Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd
7 Holbein Place
Llundain
SW1W 8NR

12 Tachwedd 2018

Annwyl y Gwir Anrhydeddus, yr Arglwydd Deben

**Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018**

Ar 5 Tachwedd, gosododd Llywodraeth Cymru bum cyfres o Reoliadau yn y Cynulliad, a ddisgrifir ar y cyd fel Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 ('y Rheoliadau'). Ar 8 Tachwedd, cytunodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad i graffu'n fanwl ar y Rheoliadau a rhoddodd wybod ynglŷn â hynny i Lywodraeth Cymru.

Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ('y Ddeddf'), wrth wneud y Rheoliadau rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i gyngor a ddarperir gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Ar y sail hon, mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth o ran y Rheoliadau, a chyn i chi fod yn bresennol yn ein cyfarfod ar 22 Tachwedd.

## Lleihau allyriadau hyd at 2050

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at leihau allyriadau 80 y cant o'i gymharu â'r llinell sylfaen erbyn 2050. Yn ôl eich amcangyfrif chi, ni fydd hyn yn ddigonol i gyflawni nodau Cytundeb Paris.

Yn eich cyngor, nodwch fod y Ddeddf yn mynnu bod allyriadau net ar gyfer 2050 o leiaf 80 y cant yn is na'r llinell sylfaen ac ni fyddai hyn yn atal Cymru rhag mynd y tu hwnt i leihad o 80 y cant. Wrth gyfeirio at darged Llywodraeth Cymru, rydych chi'n dod i'r casgliad y bydd yn bwysig sicrhau bod y camau a gymerir yn y tymor agosach yn cadw'r posibilrwydd o leihau y tu hwnt i 80 y cant erbyn 2050.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

**Cwestiwn 1** - A ydych chi'n credu ei bod yn briodol ailystyried targed 2050, yng ngoleuni casgliadau Adroddiad Arbennig yr IPCC ar Gynhesu Byd-eang? Beth yw hyfywdra hirdymor targed 2050?

**Cwestiwn 2** - Beth yw eich asesiad o effaith unrhyw newidiadau o'r fath ar allu Llywodraeth Cymru i fodloni'r targedau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040?

**Cwestiwn 3** - O gofio bod y data gwyddonol yn symud mor gyflym, a ydych yn credu ei bod yn briodol y dylai Llywodraeth Cymru, cyn i bob cyllideb garbon gael ei phennu, ailystyried targed 2050, yn seiliedig ar gyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UK CCC)?

## Targedau interim

Nodir targedau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040 yn **Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018**. Yn eich cyngor i Lywodraeth Cymru, cyfeiriasoch at her benodol targed interim 2020, gan ddweud:

> "The scope for new policies to affect the level of admissions in 2020 is very limited, especially if the Welsh Government waits until after the target is legislated to bring forward policies to achieve it".

**Cwestiwn 4** - Roedd allyriadau Cymru yn 2015 19% yn is na lefelau 1990. Yn seiliedig ar ragamcanion "busnes fel arfer" Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, beth fydd y lefel amcangyfrifedig o allyriadau yn 2020, a fynegir fel gostyngiad canran islaw lefelau 1990?

**Cwestiwn 5** – Y llwybr a awgrymir gennych yw llwybr llyfn tuag at darged 2050. Beth yw risgiau'r dull gweithredu hwn o gymharu, er enghraifft, â llwybr dechreuol mwy heriol, sy'n cyflwyno "dechrau dwys" o ran lleihau allyriadau?

## Cyllidebau carbon

Mae **Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018** yn disgrifio cyllideb carbon fel "gosod terfyn uchaf o ran cyfanswm yr allyriadau a ganiateir dros gyfnod cyllideb o bum mlynedd yng Nghymru". Mae cyfnod y gyllideb gyntaf yn parhau o 2016 i 2020, gyda chyllidebau dilynol yn cwmpasu cyfnodau olynol o bum mlynedd hyd at 2050.

Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Cynulliad yn esbonio a yw'r gyllideb carbon wedi'i bodloni. Rhaid gosod y datganiad cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef.

Ar gyfer y gyllideb garbon gyntaf (2016-2020), rhaid gosod y datganiad cyn diwedd 2022. Ar gyfer yr ail gyllideb carbon (2020-2025), rhaid gosod y datganiad cyn diwedd 2027.

Mae'r amserlenni hyn yn arwain at heriau difrifol o ran craffu'n effeithiol ar gyllidebau carbon yn y dyfodol. Er enghraifft, yn unol ag Adran 31 o'r Ddeddf, rhaid gosod y drydedd gyllideb garbon, ar gyfer 2025-2030, erbyn diwedd 2020. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu y gofynnir i'r Cynulliad gytuno ar y drydedd gyllideb garbon ddwy flynedd cyn y bydd yr alldro o'r gyllideb garbon gyntaf yn hysbys a saith mlynedd cyn bod alldro'r ail gyllideb garbon yn hysbys.

| |
|---|
| **Cwestiwn 6** - Cyn gofyn iddo gytuno ar y drydedd gyllideb garbon yn 2020, ni fydd y Cynulliad yn gwybod a yw'r ddwy gyllideb garbon gyntaf wedi'u bodloni, oherwydd gofynion adrodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Oes gennych chi unrhyw farn ar yr amserlenni a nodir yn y Ddeddf? |

### Hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol

Mae Adran 35 o'r Ddeddf yn darparu y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr o hedfan a morgludiant rhyngwladol i gyfrif fel allyriadau Cymru. Ni chynhwyswyd allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol mewn targedau polisi o'r blaen.

Nodir trefniadau ar gyfer hedfan a morgludiant rhyngwladol yn **Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Hedfan Rhyngwladol a Morgludiant Rhyngwladol) (Cymru) 2018**.

| |
|---|
| **Cwestiwn 7:** Beth yw risgiau a manteision penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnwys hedfan a morgludiant rhyngwladol mewn targedau allyriadau Cymru? |

### Cyfrif allyriadau net Cymru

Mae **Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2018** yn gosod terfyn o 10 y cant ar y cyfanswm y gellir lleihau cyfrif allyriadau net Cymru drwy ddefnyddio unedau carbon.

Rhoesoch wybod i Lywodraeth Cymru y dylai'r gyllideb garbon gyntaf gael ei chyflawni  drwy bolisïau presennol ac na ddylent ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio'r gwrthbwysiadau arfaethedig. Fodd bynnag, derbyniasoch y byddai angen rhywfaint o hyblygrwydd i fynd i'r afael ag amgylchiadau annisgwyl. Gwnaethoch gynghori y dylid cael cyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UK CCC) cyn defnyddio credydau.

**Cwestiwn 8:** O gofio eich bod wedi dweud y dylai defnydd heb ei gynllunio o gredydau allyriadau fod yn fach, beth yw eich barn chi o ran pa mor briodol yw'r terfyn o 10 y cant a gynigir gan Lywodraeth Cymru?

**Cwestiwn 9:** Beth yw eich rhesymau dros awgrymu y dylid cael cyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UK CCC) cyn defnyddio credydau?

## Cyfrifyddu carbon, ac unedau carbon

Mae **Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018** yn caniatáu cynnwys allyriadau a gynhyrchir gan y sector masnachu, h.y. sector y Cynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU-ETS), yng nghyfrif allyriadau net Cymru. Felly, caiff holl allyriadau Cymru eu cyfrif. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hwn yn ddull tryloyw a chlir o gyfrifyddu.

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi cynghori y dylid cynnwys allyriadau o sector y Cynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU-ETS) yng nghyfrif allyriadau net Cymru. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio -

> "Mae'r CCC yn cydnabod bod allyriadau diwydiannol yn her benodol yn y sefyllfa ddatganoledig lle gall newidiadau mawr mewn allyriadau ddigwydd o ganlyniad i benderfyniadau busnes mewn safleoedd unigol, lle nad oes gan Gymru lawer o reolaeth."

**Cwestiwn 10:** Beth yw'r risgiau ar gyfer y gyllideb garbon gyntaf a'r ail gyllideb garbon os na all allyrwyr barhau i fasnachu o dan Gynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU-ETS)?

Mae’n ddrwg gen i fod yr amserlen ar gyfer ymateb i geisiadau’r Pwyllgor am wybodaeth yn dynn. Disgwylir i’r Cynulliad ystyried y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr. Bydd yn ofynnol i’r Pwyllgor baratoi a chyhoeddi ei adroddiad ar y Rheoliadau cyn y ddadl honno. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech anfon eich ymateb erbyn 22 Tachwedd fan bellaf.

Mae’r Pwyllgor hefyd wedi gofyn i Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU ddarparu sesiwn friffio lafar ar wahân i’r Pwyllgor ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Llwybr Datgarboneiddio hyd at 2030, a drefnwyd i’w gynnal ar 22 Tachwedd. Rwy’n ddiolchgar am gydweithrediad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wrth graffu ar y Rheoliadau a’r Llwybr.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

cc Chris Stark, Prif Weithredwr, y Pwyllgor Newid Hinsawdd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee



Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

13 Tachwedd 2018

Annwyl Lesley,

**Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018**

Ar 5 Tachwedd, gosododd Llywodraeth Cymru bum cyfres o Reoliadau yn y Cynulliad, a ddisgrifir ar y cyd fel Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018. Ar 8 Tachwedd, cytunodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad i graffu'n fanwl ar y pum cyfres o Reoliadau a rhoddodd wybod ynglŷn â hynny i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth i lywio ein gwaith o graffu ar y Rheoliadau.

## Lleihad allyriadau hyd at 2050

Yn ei gyngor i Lywodraeth Cymru, mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (yr UK CCC) yn nodi bod y Ddeddf yn mynnu bod allyriadau net ar gyfer 2050 o leiaf 80 y cant yn is na'r llinell sylfaen ac ni fyddai hyn yn atal Cymru rhag mynd y tu hwnt i leihad o 80 y cant. Wrth gyfeirio at darged Llywodraeth Cymru, mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn dod i'r casgliad y bydd yn bwysig sicrhau bod y camau a gymerir yn y tymor agosach yn cadw'r posibilrwydd o leihau y tu hwnt i 80 y cant erbyn 2050.

Yn ôl amcangyfrif Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, ni fydd gostyngiad islaw 83 y cant yn ddigonol i fodloni nodau Cytundeb Paris.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

**Cwestiwn 1:** Beth fydd yr effaith os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 yn y Cyfarfod Llawn?

**Cwestiwn 2:** A allwch gadarnhau lefel y gostyngiadau a gyflawnir gan bob un o'r pedwar opsiwn a gynhwysir yn eich Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fynegir fel gostyngiad canran islaw'r llinell sylfaen?

**Cwestiwn 3:** A ydych yn fodlon bod eich dull gweithredu arfaethedig yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyraeddadwyedd ac uchelgais, o ystyried na fydd yn bodloni nodau Cytundeb Paris, yn ôl cyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU?

**Cwestiwn 4:** A wnewch chi ymrwymo i ailystyried targed 2050 cyn gosod cyllidebau carbon yn y dyfodol; y byddwch yn gwneud hynny ar sail cyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU; ac i adrodd yn ôl i'r Cynulliad ynghylch eich penderfyniad?

## Targedau interim

Nodir targedau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040 yn **Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018**. Yng nghyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU i Lywodraeth Cymru, dywedodd:

> "The scope for new policies to affect the level of admissions in 2020 is very limited, especially if the Welsh Government waits until after the target is legislated to bring forward policies to achieve it".

**Cwestiwn 5:** Beth yw eich rhagamcaniadau cyfredol o ran y lefelau allyriadau yn 2020?

**Cwestiwn 6:** Beth yw eich dealltwriaeth o'r amserlen ar gyfer cau gorsaf bŵer Aberthaw, a gaiff effaith sylweddol ar eich gallu i gyrraedd targed interim 2030?

## Cyllidebau carbon

Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018 yn disgrifio cyllideb carbon fel "darparu cyfanswm uchaf ar gyfer cyfrif allyriadau a ganiateir dros gyfnod cyllidebol o bum mlynedd yng Nghymru". Mae cyfnod y gyllideb gyntaf yn para o 2016 i 2020, gyda chyllidebau dilynol yn cwmpasu cyfnodau olynol o bum mlynedd hyd at 2050.

Mae Adran 41 o’r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Cynulliad yn esbonio a yw’r gyllideb carbon wedi’i bodloni. Rhaid gosod y datganiad cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y cyfnod y mae’n ymwneud ag ef.

**Cwestiwn 7:** Y gwahaniaeth rhwng y costau amcangyfrifedig ar gyfer y ddau gyfnod cyllideb carbon cyntaf yw £12 biliwn, sy’n cynnwys costau sy’n deillio o’r sector "Pŵer" bron yn gyfan gwbl. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd mewn costau sy’n cyfateb i £2.4 biliwn y flwyddyn dros gyfnod y gyllideb. A allwch ddarparu rhagor o fanylion ar eich amcangyfrifon o ran y gost hon?

**Cwestiwn 8:** Mae’r costau amcangyfrifedig ar gyfer y Gyllideb Carbon gyntaf (2016-2020) yn £2 biliwn ychwanegol uwchlaw’r llinell sylfaen (h.y. opsiwn "gwneud dim rhagor", heb ddim ymyriadau ychwanegol o ran polisi). A allwch egluro sut rydych chi’n disgwyl i gostau ychwanegol o £2 biliwn godi yn ystod y ddwy flynedd olaf o gyfnod y gyllideb (h.y. 2018-2020)?

**Cwestiwn 9:** Ac eithrio’r cynnydd mewn costau sy’n gysylltiedig â’r sector Pŵer (£12 biliwn), bach yw’r newidiadau a ddisgwyliwch i’r costau sy’n gysylltiedig â phob sector arall rhwng cyfnod y gyllideb gyntaf ac ail gyfnod y gyllideb. A allwch chi egluro’r rhesymeg dros hyn?

## Hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol

Mae Adran 35 o’r Ddeddf yn darparu y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol i gyfrif fel allyriadau Cymru. Ni chynhwyswyd allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol mewn targedau polisi o’r blaen.

Nodir trefniadau ar gyfer hedfan a morgludiant rhyngwladol yn **Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Hedfan Rhyngwladol a Morgludiant Rhyngwladol) (Cymru) 2018**.

**Cwestiwn 7:** Beth yw risgiau a manteision penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnwys hedfan a morgludiant rhyngwladol yn y Rheoliadau?

## Cyfrif allyriadau net Cymru

Mae **Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2018** yn gosod terfyn o 10 y cant ar y cyfanswm y gellir lleihau cyfrif allyriadau net Cymru drwy ddefnyddio unedau carbon.

Rhoddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU gyngor i Lywodraeth Cymru y dylai'r gyllideb garbon gyntaf gael ei chyflawni drwy bolisïau presennol ac na ddylent ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio'r gwrthbwysiadau arfaethedig. Fodd bynnag, derbyniai Pwyllgor y DU y byddai angen rhywfaint o hyblygrwydd i fynd i'r afael ag amgylchiadau annisgwyl. Rhoddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wybod y dylid cael cyngor ganddo cyn defnyddio credydau.

**Cwestiwn 11:** O gofio bod dwy flynedd yn weddill o'r cyfnod cyllideb garbon cyntaf, beth yw eich rhagamcaniadau cyfredol o faint o unedau carbon y bydd angen i chi eu defnyddio i fodloni'r gyllideb garbon gyntaf, a fynegir fel canran o'r gyllideb garbon gyntaf?

**Cwestiwn 12:** Beth yw'r risgiau sy'n deillio o'r amrywioldeb o ran pris credydau gwrthbwysiadau? Sut y gellir lliniaru'r risgiau hynny?

## Cyfrifyddu carbon, ac unedau carbon

Mae **Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018** yn caniatáu cynnwys allyriadau a gynhyrchir gan y sector masnachu, h.y. sector Cynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU-ETS) yng nghyfrif allyriadau net Cymru. Felly, caiff holl allyriadau Cymru eu cyfrif. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hwn yn ddull tryloyw a chlir o gyfrifyddu.

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi cynghori y dylid cynnwys allyriadau o sector Cynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU-ETS) yng nghyfrif allyriadau net Cymru. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio -

> "Mae'r CCC yn cydnabod bod allyriadau diwydiannol yn her benodol yn y sefyllfa ddatganoledig lle gall newidiadau mawr mewn allyriadau ddigwydd o ganlyniad i benderfyniadau busnes mewn safleoedd unigol, lle nad oes gan Gymru lawer o reolaeth."

| |
|---|
| Cwestiwn 13: Beth yw'r risgiau ar gyfer y gyllideb garbon gyntaf a'r ail gyllideb garbon os na all allyrwyr barhau i fasnachu o dan Gynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (EU-ETS)? |

Mae'n anffodus bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad ond yn darparu ychydig o amser i'r Pwyllgor graffu ar y Rheoliadau hyn. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech ddarparu'ch ymateb erbyn 21 Tachwedd.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**